

Datganiad Polisi

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys i bob plentyn. Y Cwricwlwm Cenedlaethol yw ein man cychwynnol ar gyfer cynllunio. Yn ystod y broses, rydym yn gosod tasgau sydd wedi eu teilwra yn ôl anghenion plant unigol. Yn naturiol, mae gan rai plant anghenion addysgol arbennig ac yr ydym yn sicrhau bod ein gwaith cynllunio yn ymateb i'r gofynion sy'n ymhlyg yn hynny.
- 1.2 Fel athrawon yr ysgol, rydym yn rhoi ystyriaeth i ofynion gwahanol ein disgyblion, a phan fydd angen, yn darparu cymorth arbennig i unigolion neu grwpiau fel eu bod yn cael mynediad mor llawn â phosibl i'r cwricwlwm.
- 1.3 Gall plant fod ag anghenion addysgol arbennig drwy gydol eu cyfnod ysgol, neu am gyfnod penodol yn unig. Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod cynllunio cwricwlaidd ac asesiadau ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig yn rhoi ystyriaeth deg i natur a graddau'r anhawster sydd gan y plentyn.
- 1.4 Mae hefyd yn sicrhau fod llais y plentyn, yn unol â'i oed, ei aeddfedrwydd a'i allu, yn cael ei glywed yn yr holl gynllunio ar ei gyfer.

2. Nodau ac Amcanion

2.1 Nodau'r polisi hwn yw:

- Creu amgylchfyd sy'n addas ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig
- Sicrhau bod anghenion addysgol arbennig plant yn cael eu dynodi a'u hasesu a bod darpariaeth addas ar eu cyfer
- Cyfleu disgwyliadau clir ar gyfer pob parti sy'n ymwneud â'r broses
- Dynodi rôl a chyfrifoldeb pob aelod staff sy'n rhan o'r broses
- Galluogi pob plentyn i gael mynediad llawn i bob elfen o gwricwlwm yr ysgol

3. Cynhwysiant addysgol

3.1 Drwy ddarpariaeth gwricwlaidd briodol, rydym yn parchu'r ffaith fod plant

- Â gwahanol anghenion addysgol ac anghenion gwahanol o ran ymddygiad a dyheadau
- Ag anghenion sy'n gofyn am strategaethau dysgu unigol
- Yn caffael, meithrin a chyfathrebu gwybodaeth ar raddfeydd gwahanol
- Angen amrediad o gyrch ddulliau dysgu a phrofiadau

3.2 Fel athrawon, rydym yn ymateb i ofynion ein plant drwy:

- Ddarparu cynhaliadau i blant sydd angen cymorth o ran cyfathrebu, iaith a llythrennedd
- Rhoi profiadau addas i'r plant er datblygiad eu dealltwriaeth

- Cynllunio er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn dysgu ac yn cyfrannu at weithgareddau ymarferol a chorfforol
- Rhoi cymorth i blant reoli eu hymddygiad a'u hemosiynau ac i ddysgu yn effeithiol a diogel

4 Anghenion addysgol arbennig

4.1 Mae angen gwneud darpariaeth arbennig er mwyn ymateb i anawsterau dysgu plant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Gall unrhyw blentyn fod ag anghenion addysgol arbennig ar ryw adeg yn ystod ei yrfa yn yr ysgol. Nid oes categorïau pendant o anghenion addysgol arbennig ond bydd gan ddisgyblion anghenion a all gwmpo i o leiaf un o bedwar maes, sydd yn aml yn rhyngberthnasol:

Cyfathrebu a rhyngweithio

Gwybyddiaeth a dysgu

Datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol

Synhwyraidd a/ neu gorfforol

Gall rhai disgyblion dawnus a thalentog fod ag anghenion addysgol arbennig.

4.2.1 Yn sgil Deddf Addysg 1996 mae'n ofynnol i ysgolion wahaniaethu rhwng gwahanol gyfnodau y broses asesu – Gweithredu Ysgol, Gweithredu Ysgol a Mwy, a Gweithredu Ysgol a Mwy Estynedig o fewn yr ysgol, tra bod yr AALI yn cymryd yr awenau pan fod cyfeiriad am asesiad statudol yn cael ei wneud.

4.3 Yn yr ysgol hon, y Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig sydd yn:

- Rheoli gweithrediad y polisi o ddydd i ddydd;
- Cydlynu'r ddarpariaeth ac yn rheoli'r ymatebion i ofynion addysgol arbennig y plant;
- Cynnal a chynghori cydweithwyr;
- Diweddarau'r gofrestr AAA;
- Cyfrannu at ac yn tros olygu cofnodion pob plentyn ag anghenion addysgol arbennig;
- Rheoli'r broses asesu o fewn yr ysgol ac yn cwblhau'r ddogfennaeth sydd yn ofynnol gan asiantaethau allanol a'r AALI;
- Gweithredu fel dolen gyswllt gyda'r rhieni;
- Gyfrifol am yr ystod o adnoddau AAA a'r adnoddau dysgu sydd yn cynnal darpariaeth briodol i gyfarfod ag anghenion y plant;
- Gweithredu fel cyswllt rhwng asiantaethau allanol ac asiantaethau cynhaliol eraill;
- Monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig ac yn adrodd yn ôl i'r corff llywodraethol;
- Rheoli amrediad o adnoddau dynol a materol sy'n gysylltiedig â phlant ag anghenion addysgol arbennig.

5. Rôl y corff llywodraethol

Rhaid i gorff llywodraethol yr ysgol:

- Wneud ei orau i sicrhau bod y ddarpariaeth angenrheidiol yn cael ei gwneud ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig

- Sicrhau, lle bo'r AALI wedi hysbysu'r 'person cyfrifol' – y pennaeth neu'r llywodraethwr priodol – fod gan ddisgybl anghenion addysgol arbennig, fod pawb sy'n debygol o'i ddysgu yn cael gwybod am yr anghenion hynny
- Sicrhau bod athrawon yn yr ysgol yn ymwybodol o bwysigrwydd canfod disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig a darparu ar eu cyfer
- Ymgynghori â'r AALI a chyrrff llywodraethu ysgolion eraill, pan fo hynny'n ymddangos yn angenrheidiol neu'n ddymunol er budd darpariaeth addysg arbennig gyd-drefnus yn yr ardal gyfan
- Sicrhau bod disgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ymuno yng ngweithgareddau'r ysgol gyda disgyblion nad oes ganddynt anghenion addysgol arbennig, cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol o fewn rheswm ac yn golygu bod y plentyn yn cael darpariaeth addysgol arbennig sy'n addas ar gyfer ei anghenion addysgol, bod y plant y caiff eu haddysgu gyda nhw yn cael addysg effeithlon, a bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon
- Adrodd yn flynyddol i rieni ar weithrediad polisi'r ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig

6 **Dosrannu adnoddau**

- 6.1 Y Cydlynnydd sydd yn gyfrifol am reolaeth weithredol yr anghenion penodol a chytunedig parthed AAA o fewn yr ysgol, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer plant â datganiadau o anghenion addysgol arbennig
- 6.2 Ymgwymerir ag awdit AAA bob blwyddyn a seilir ariannu'r ddarpariaeth anghenion arbennig ar ganlyniad yr awdit hwn. Polisi'r ysgol hon yw sicrhau arbenigedd athro/awes cynnal AAA. Yn ogystal â rhoi cymorth a chynghor i'r staff ynglŷn â dynodi disgyblion ag AAA, bydd ef/hi yn darparu cefnogaeth ychwanegol i'r disgyblion hynny. Bydd disgyblion ag AAA naill ai'n cael eu tynnu o'r dosbarth i'w dysgu o fewn grwpiau sy'n addas i'w hanghenion neu, lle bo'n briodol, yn derbyn cefnogaeth o fewn y dosbarth

7 **Asesu**

- 7.1 Mae adnabod anghenion plant yn gynnar yn eu cyfnod ysgol yn angenrheidiol. Mae'r athrawes ddosbarth yn hysbysu'r rhieni mor gynnar ag sydd yn bosibl fel eu bod yn ymwybodol o unrhyw faterion pryder ac er mwyn sicrhau eu bod yn helpu yn y broses o ddarparu cymorth a chynhaliadau i'r plentyn
- 7.2 Mae'r athrawes ddosbarth a'r Cydlynnydd yn asesu a monitro cynnydd y plant yn unol ag arfer bresennol yr ysgol. Defnyddir profion safonol ar gyfer y broses sgrinio a gosodir disgyblion ar gyfnod priodol y gofrestr AAA yn seiliedig ar feini prawf yr AALI.
- 7.3 Mae'r Cydlynnydd yn cydweithio gyda'r rhieni a'r athrawon er mwyn cynllunio rhaglen addas i ofynion y plentyn

- 7.4 Mae'r asesiad a wneir o alluoedd y plant yn adlewyrchu cyn belled â phosibl eu cyfraniad ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Gall yr athro/awes dosbarth a'r CAAA dorri'r asesiad i gamau llai i hybu'r cynnydd ac i ddarparu dangosyddion manwl a chywir.
- 7.5 Yn unol â'r Cod Ymarfer AAA i Gymru, bydd yr ysgol yn ymateb i anghenion addysgol arbennig y disgyblion ar y lefel briodol:
Gweithredu Ysgol: mae'r CAAA yn cynorthwyo i hel tystiolaeth ac yn cydlynu'r ddarpariaeth yn yr ysgol;
Gweithredu Ysgol a Mwy: ceir cynhaliath asiantaethau allanol sydd yn cydweithio gyda'r athrawes a'r CAAA;
Gweithredu Ysgol a Mwy Ychwanegol: bydd yr athro/awes dosbarth a'r CAAA yn debyg o gael cymorth gan arbenigwyr o du allan i'r ysgol gyda lefel cynhaliath uwch na Gweithredu Ysgol a Mwy;
Asesiad Statudol: mae'r AALI yn ystyried yr angen am asesiad statudol a gall hawlio asesiad amlddisgyblaethol a all yn ei dro arwain at ddatganiad ffurfiol o anghenion addysgol arbennig.
- 7.6 Mae'r AALI yn cyrchu cyngorion o sawl tu gwahanol cyn gwneud datganiad ffurfiol. Anghenion y plentyn yw'r ystyriaeth bwysicaf yn y broses.
8. **Mynediad i'r cwricwlwm**
- 8.1. Mae gan bob plentyn yr hawl i gwricwlwm eang a chytbwys, sydd wedi ei wahaniaethu er mwyn ei alluogi i:
- Ddeall perthnasedd a phwrpas tasgau addysgol;
 - Wneud cynnydd fydd yn arwain at deimladau o lwyddiant a bodlonrwydd.
- 8.2 Fel athrawon, rydym yn defnyddio ystod o strategaethau i ddiwallu anghenion addysgol arbennig ein disgyblion. Mae amcanion dysgu clir i'r gwersi. Rydym yn gwahaniaethu tasgau yn briodol ac yn defnyddio asesiadau fel cyfrwng i sefydlu nodau dysgu newydd.
- 8.3 Mae Cynlluniau Addysg Unigol sydd yn dilyn camau bychain yn rhan allweddol o ddarpariaeth yr ysgol. Wrth osod mân gamau cyrhaeddiad a mân dargedau rydym yn anelu i feithrin llwyddiant ar ran y plant. Mae gan bob plentyn sydd ar y gofrestr AAA Gynllun Addysg Unigol.
- 8.4 Rydym yn rhoi cynhaliath i'r plant er mwyn iddynt rannu'r un profiadau dysgu â'u cyd-ddisgyblion. Ar rai adegau, fodd bynnag, er mwyn gwneud llawn ddefnydd o'r arbenigedd ar gael ac er mwyn cwrdd â gofynion plentyn, rydym yn gofyn i'r plant weithio mewn grwpiau bychain, neu fel unigolion mewn sefyllfa un - i - un, y tu allan i'r ystafell ddosbarth.
9. **Partneriaeth â'r rhieni**
- 9.1 Mae'r AALI wedi sefydlu Gwasanaeth Partneriaeth â Rhieni a Gwasanaeth Datrys Anghydfod. Ceir gwybodaeth yn yr ysgol am wasanaeth SNAP (Ceredigion) a hysbysir rhieni yn dymhorol am y gwasanaeth hwn.

- 9.2 Mae adroddiad blynyddol y Llywodraethwyr i'r rhieni yn rhoi ystyriaeth i'r polisi AAA yn ôl y gofyn. Mae llywodraethwr penodedig yn tros olygu'r ddarpariaeth AAA gan fod yn barod i siarad â'r rhieni os oes angen.
- 9.3 Mae'r ysgol yn hysbysu'r rhieni parthed unrhyw newidiadau yn y broses anghenion addysgol arbennig. Rydym yn rhoi ystyriaeth i ddymuniadau a theimladau rhieni a'r wybodaeth sydd ganddynt ar bob achlysur. Rydym yn annog rhieni i wneud cyfraniad gweithredol tuag at addysg eu plant.
- 9.4 Rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd yn ystod y flwyddyn i drafod cynnydd disgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig gyda'u rhieni. Rydym yn hysbysu'r rhieni parthed unrhyw gyfraniad gan asiantaethau allanol i'r broses, ac yn rhannu'r broses o wneud penderfyniadau drwy ddarparu gwybodaeth eglur parthed addysg plant ag anghenion addysgol arbennig.
- 9.5 Gwahoddir rhieni i fynychu adolygiadau datganiadau. Cynhelir adolygiadau trosglwyddo ym Mlwyddyn 5 ac os ceir rhai materion heb eu datrys yna cynhelir adolygiad interim yn nhymor yr hydref Blwyddyn 6.
10. **Monitro a gwerthuso**
- 10.1 Mae'r Cydlynnydd yn monitro symudiad plant o fewn cyfundrefn AAA yr ysgol. Mae'r Cydlynnydd yn darparu gwybodaeth ynglŷn â gweithrediad y polisi i'r athrawon a'r llywodraethwyr yn ôl y gofyn.
- 10.2 Mae'r Cydlynnydd yn darparu cymorth i'r athrawon o ran llunio'r Cynlluniau Addysg Unigol. Mae'r cynlluniau yn cael eu trafod a'u hadolygu'n rheolaidd. Sicrheir fod y llywodraethwr/wraig â chyfrifoldeb am AAA yn cael ei chadw'n hysbys o'r datblygiadau.
- 10.3 Mae'r Corff Llywodraethol yn adolygu'r polisi yn flynyddol ac yn ystyried diwygiadau yn wyneb yr adolygiadau blynyddol. Mae'r Cydlynnydd yn hysbysu'r corff llywodraethol ynglŷn â chanlyniad yr adolygiadau blynyddol.

Paratowyd gan y Pennaeth mewn cydweithrediad â'r staff _____ Dyddiad

Derbyniwyd gan y Corff Llywodraethol _____ Cadeirydd

1 Tachwedd 2016